

# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024

<b>YN BRESENNOL:</b>	Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)  Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Glyn Haynes, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts.
<b>WRTH LAW:</b>	Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLIJ) Uwch Swyddog Cynllunio a Swyddog Achos ar gyfer cais 1 (JR) Cynorthwy-ydd Cynllunio a Swyddog Achos ar gyfer cais 2 (DCP-S)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Cynghorwyr John I. Jones, Jackie Lewis, Alwen Watkin, Robin Williams, Liz Wood.
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Aelodau Lleol: Cynghorwyr Margaret M. Roberts, Ieuan Williams (ar gyfer cais 1)

---

**1 FPL/2023/146 - Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd newydd ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Cae Graham, Pentraeth.**

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y cais cynllunio i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gwelwyd y safle o'r traeth (Traeth Coch, Pentraeth) cyn i aelodau'r Pwyllgor gerdded o fynedfa Tyddyn Waen i safle'r cais lle gwelwyd y safle o du mewn i gwrtil yr eiddo.

**2 FPL/2023/227 - Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol ynghyd â chodi annedd newydd, ynghyd ag addasu yr fynedfa presennol, sustem trin carthffosiaeth, a gwaith cysylltiedig yn fferm Ty Coch, Rhostrehwfa.**

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y cais cynllunio i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gwelwyd y safle o du mewn i gwrtil yr eiddo a dangosodd y Rheolwr Datblygu a Cynllunio i aelodau'r Pwyllgor leoliad y llwybr cyhoeddus sydd gerllaw.

**Cynghorydd Ken Taylor  
Cadeirydd**